# Hysbysiad Preifatrwydd Ymgeiswyr

**Rheolwr Data:** WRAP, Second floor, Blenheim Court, 19 George Street, Banbury, Oxon, OX16 5BH. 01295 819900

Fel rhan o'n proses ymgeisio a recriwtio ymgeiswyr, mae WRAP yn casglu, prosesu a chadw gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae WRAP yn ymrwymedig i fod yn dryloyw am sut mae'n casglu a defnyddio'r data hwnnw ac yn bodloni ei rwymedigaethau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (*General Data Protection Regulation*/GDPR).

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno:

- Pa wybodaeth a gesglir.
- Pam rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol.
- Sut caiff ei brosesu o fewn y broses recriwtio.

Defnyddiwn y term "prosesu" trwy gydol yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn i gynnwys yr holl weithgareddau sy'n ymwneud â'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys casglu, trin, storio, rhannu, cael mynediad at, defnyddio, trosglwyddo a gwaredu'r wybodaeth.

## Pa wybodaeth a gesglir gan y sefydliad?

Mae'r sefydliad yn casglu ystod o wybodaeth amdanoch. Mae hyn yn cynnwys:

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cysylltu, yn cynnwys cyfeiriad ebost a rhif ffôn.
- Manylion eich cymwysterau, medrau, profiad a'ch hanes cyflogaeth.
- Gwybodaeth am eich cyfradd tâl bresennol.
- Gwybodaeth ynghylch a oes gennych anabledd y mae angen i'r sefydliad wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio ai peidio.
- Manylion unrhyw euogfarnau troseddol neu achosion yn yr arfaeth.
- Gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

Gall y sefydliad gasglu'r wybodaeth hon mewn amryw o ffyrdd. Er enghraifft, gall y data fod wedi'i gynnwys mewn ffurflenni cais, CVs, ar eich pasbort neu ddogfennau adnabod eraill, neu fod wedi'i gasglu trwy gyfweliadau neu ddulliau asesu eraill.

Gall y sefydliad hefyd gasglu data personol amdanoch gan drydydd parti, fel geirda gan gyn-gyflogwyr, gwybodaeth gan ddarparwyr gwiriadau cefndir cyflogaeth a gwybodaeth o wiriadau cofnodion troseddol. Dim ond unwaith y caiff cynnig swydd ei wneud i chi y gwnaiff y sefydliad ofyn am wybodaeth gan drydydd parti, a chewch eich hysbysu ei fod am wneud hynny.

Caiff data ei storio mewn amryw o wahanol lefydd, yn cynnwys ar eich cofnod ymgeisio, mewn systemau rheoli adnoddau dynol ac ar systemau TG eraill (yn cynnwys ebost).

## Pam mae'r sefydliad yn prosesu data personol?

Mae'r sefydliad angen prosesu data er mwyn cymryd camau ar eich cais cyn ymrwymo i gontract â chi. Efallai y bydd hefyd angen prosesu eich data er mwyn ymrwymo i gontract â chi.

Mewn rhai achosion, mae angen i'r sefydliad brosesu data i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae angen iddo wirio hawl ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y Deyrnas Unedig cyn dechrau'r swydd.

Mae gan y sefydliad ddiddordeb cyfreithlon mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac mewn cadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data gan ymgeiswyr swyddi yn caniatáu i'r sefydliad reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd ar gyfer cyflogaeth a phenderfynu pwy sy'n cael cynnig swydd. Efallai y bydd hefyd angen i'r sefydliad brosesu data gan ymgeiswyr swyddi i ymateb iddynt ac i amddiffyn eu hunain yn erbyn hawliadau cyfreithiol.

Gall y sefydliad hefyd gasglu gwybodaeth ynghylch a yw ymgeiswyr yn anabl ai peidio er mwyn gwneud addasiadau rhesymol i ymgeiswyr sydd ag anabledd. Mae'r sefydliad yn prosesu gwybodaeth o'r fath er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau penodol yn gysylltiedig â chyflogaeth.

Ar gyfer rhai rolau, mae'n ofynnol i'r sefydliad geisio gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau. Pan fo'r sefydliad yn gofyn am yr wybodaeth hon, mae'n gwneud hynny am ei fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau penodol yn gysylltiedig â chyflogaeth.

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, gall y sefydliad gadw eich data personol ar ffeil rhag ofn y daw cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol y gallech fod yn addas ar eu cyfer. Bydd y sefydliad yn gofyn eich caniatâd cyn cadw'ch data at y diben hwn ac mae hawl gennych dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

## Pwy sydd â mynediad at ddata?

Gall eich data gael ei rannu yn fewnol at ddibenion y gweithgaredd recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm adnoddau dynol, cyfwelwyr sy'n ymwneud â'r broses recriwtio, rheolwyr ym maes busnes y swydd wag, a'r gweithwyr sy'n cydlynu'r broses recriwtio fel rhan o'u swydd.

Ni wnaiff y sefydliad rannu eich data gyda thrydydd parti, oni bai fod eich cais am swydd yn llwyddiannus a bod y sefydliad yn cynnig swydd i chi. Yna, bydd y sefydliad yn rhannu eich data gyda chyn-gyflogwyr er mwyn cael geirda amdanoch, gyda darparwyr gwiriadau cefndir cyflogaeth i gynnal y gwiriadau cefndir priodol, a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gael gwiriadau cofnod troseddol angenrheidiol.

Ni wnaiff y sefydliad drosglwyddo eich data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## Sut mae'r sefydliad yn diogelu data?

Mae'r sefydliad yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Mae ganddo bolisïau a rheolaethau mewnol ar waith i sicrhau na chaiff eich data ei golli, ei ddinistrio'n ddamweiniol, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu, ac na chaiff ei ddefnyddio heblaw am gan ein gweithwyr wrth berfformio'u dyletswyddau yn y modd cywir. Mae'r polisïau a'r rheoliadau hyn yn cynnwys y Polisi Diogelu Data, y Polisi Trin Data a chyfyngu mynediad at y data hwn fel uchod.

## Am ba hyd y mae'r sefydliad yn cadw data?

Os yw eich cais am gyflogaeth yn aflwyddiannus, bydd y sefydliad yn cadw eich data ar ffeil am 6 mis ar ôl diwedd y broses recriwtio berthnasol. Os cytunwch i'r sefydliad gadw eich data personol ar ffeil, yna bydd y sefydliad yn cadw eich data ar ffeil am 6 mis arall i'w ystyried ar gyfer cyfleoedd pellach am gyflogaeth. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, neu unwaith y byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl, caiff eich data ei ddileu neu ei ddinistrio.

Os yw eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, caiff y data personol a gasglwyd yn ystod y broses recriwtio ei drosglwyddo i'ch ffeil personél a'i gadw tra byddwch yn gyflogedig. Cewch eich hysbysu am ba hyd y byddwn yn cadw eich data mewn hysbysiad preifatrwydd newydd.

## Eich hawliau

Chi yw'r sawl y mae'r data amdano, ac felly mae gennych nifer o hawliau. Gallwch:

- Gael mynediad at a chael copi o'ch data ar gais.
- Ofyn i'r sefydliad newid data anghywir neu anghyflawn.
- Ofyn i'r sefydliad ddileu neu roi'r gorau i brosesu eich data, er enghraifft, pan nad oes angen y data at ddibenion prosesu mwyach.
- Wrthwynebu i brosesu eich data lle mae'r sefydliad yn dibynnu ar ei ddiddordeb cyfreithlon fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â Data.Protection@wrap.org.uk.

Os credwch nad yw'r sefydliad wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Data personol digymell

Pan rydym yn derbyn CVs digymell ar adeg pan nad ydym yn recriwtio, byddwn fel rheol yn dileu'r CV a rhoi gwybod i'r ymgeisydd am hyn. Fodd bynnag, os penderfynwn gadw CVs digymell ar ffeil ar gyfer rowndiau recriwtio yn y dyfodol, byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd, yn anfon copi o'r hysbysiad preifatrwydd hwn ac yn rhoi gwybod iddynt am eu hawl i ofyn i'r data gael ei ddileu.

## Beth os nad ydych yn darparu data personol?

Nid oes unrhyw ofyniad statudol na chytundebol i chi ddarparu data i'r sefydliad yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os nad ydych yn darparu'r wybodaeth, mae'n bosibl na fydd y sefydliad yn gallu prosesu eich cais yn iawn, neu'n na fydd yn gallu gwneud hynny o gwbl.

## Gwneud penderfyniadau yn awtomataidd

Nid yw prosesau recriwtio wedi'u seilio ar benderfyniadau awtomataidd yn unig.